

09/06/2021

Annwyl Ddisgyblion blwyddyn 11 a Rhieni / Gwarcheidwaid,

Hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddymuno'n dda i chi ddisgyblion Blwyddyn 11eg sydd yn ein gadael heddiw ac hyfryd oedd cael eich cwmni yn y seremoni ffarfwelio! Diolch i chi am eich cyfraniad gwych at fywyd Bryn Tawe ac edrychwn ymlaen at eich croesawu yn ôl i'r Chweched ym mis Medi. Bydd cyfle i chi ymweld â ni i drafod eich opsiynau yn llawnach yn gynnar ym mis Gorffennaf - cewch wybodaeth lawn pan fyddwn yn rhannu eich graddau ar y 18fed o Fehefin. I'r disgyblion fydd yn symud at brentisiaethau, i'r byd gwaith neu i'r coleg, pob dymuniad da i chi ar gyfer dyfodol hapus a llwyddiannus. Braff fyddai eich gweld o bryd i'w gilydd a chofiwch alw i'n gweld!

Graddau a Bennir gan Ganolfan (GBG) dros dro

Yn dilyn hanner tymor o waith caled ac asesiadau mae'r trefniadau gweinyddol terfynol yn eu lle er mwyn gosod Gradd a Bennir gan Ganolfan (GBG) dros dro. Bydd yr ysgol yn rhannu GBG dros dro gyda phob disgybl trwy gyfeiriad e-bost HWB ar **ddydd Gwener y 18fed o Fehefin**. Gwiriwch yr e-bost yn ofalus, gan y byddwn hefyd yn rhannu manylion am y trefniadau y bydd angen eu dilyn os hoffech ofyn am adolygiad o'r graddau. Cofiwch mai GBG dros dro yw y rhain, a bydd CBAC yn gwirio ansawdd penderfyniadau dysgwyr a chanlyniadau cyffredinol cyn cyhoeddi'n derfynol ar ddiwrnod canlyniadau TGAU sef dydd lau 12fed o Awst.

Os ydych yn astudio cyrsiau galweddiaethol a chysiau BTEC, ni fydd GBG dros dro yn cael eu rhannu, bydd y graddau hyn yn cael eu cyhoeddi ar ddiwrnod canlyniadau TGAU.

Cofrestru ar gyfer Y Chweched

Byddwn yn rhannu manylion gyda chi am ddiwrnod cofrestru ar gyfer Y Chweched. Dyma gyfle i chi sgwrsio gyda thîm o athrawon am eich opsiynau wrth ddychwelyd i'r Chweched Dosbarth. Bydd Mrs Rhiannon Churchill (Swyddog Gyrfau) yno i'ch cynghori hefyd.

Diwrnod canlyniadau TGAU - Dydd lau Awst 12fed:

Bydd yr ysgol ar agor o 08:30yb ar ddiwrnod canlyniadau TGAU.

Mae tair ffordd y bydd canlyniadau ar gael eleni;

1. Casglu canlyniadau'n bersonol gan y myfyriwr.
2. Cynrychiolydd yn casglu canlyniadau ar ran y disgybl.
3. Danfon trwy e-bost ar y diwrnod.

Os hoffech dderbyn canlyniadau trwy e-bost neu enwebu cynrychiolydd, a fydddech cystal â chysylltu â'r swyddog arholiadau, Mrs Rhian Davies gyda'ch cais erbyn dydd lau Gorffennaf 15fed?

Yn gywir



Mr Simon Davies
Pennaeth



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwrysydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

E-bost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



**BUDDSODDWYR
MEWN POBL**

Aur

